Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – LF/JH/1243/12/B

Christine Chapman AC / AM
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Rhagfyr 2014

Annwyl Christine

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr ynghylch ystyriaeth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol rhif 3 ar gyfer y darpariaethau adfer taliadau ymadael yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

Rwyf yn nodi isod fy nealltwriaeth o fwriad polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cwestiynau rydych chi'n eu codi.

***Question 1 - In relation to the power for HM Treasury to make regulations requiring the repayment of some or all of any qualifying exit payment in "specified circumstances" (as per paragraph 8a of the LCM), what the Welsh Government understands these "specified circumstances" to be;***

Mae'r 'amgylchiadau penodedig' yn ymwneud ag adfer taliadau ymadael gan unigolion a oedd cyn hynny yn ennill dros £100,000 ac sy'n dychwelyd, o fewn 12 mis, i'r un is-sector ag y gadawont.

***Question 2 - In relation to a 'qualifying exit payment', the LCM states that this means 'a payment of a certain description made to an employee or office holder of a prescribed public sector authority when they leave the employment or office'. What public sector authorities or offices will be covered by these provisions; will they include, for example, local government officials, councillors, fire and rescue services staff and the police?***

Mae pob rhan o'r sector cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn hyn, ac eithrio'r Lluoedd Arfog, Amgueddfeydd Cenedlaethol, rhai corfforaethau ariannol cyhoeddus, darlledwyr cyhoeddus, Banc Lloegr a Chomisiynydd Goleuadau Iwerddon. Mae'r cyrff sector

cyhoeddus hyn wedi'u heithrio oherwydd natur unigryw eu sefydliadau.

Bydd Llywodraeth y DU yn nodi manylion cyrff ac is-sectorau penodol o dan y rheoliadau, gyda chyrff cyhoeddus a gweithluoedd yn cael; eu dosbarthu ar sail i ba adran y maent yn bennaf gyfrifol. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ymhellach ar y manylion terfynol pan fydd y rheoliadau drafft yn barod i ymgynghori arnynt.

***Question 3 - Whether there will be a minimum threshold in relation to the exit payments to be recovered and, if so, what this is likely to be;***

Bydd y trefniadau adfer yn berthnasol i'r holl daliadau ymadael i'r rheini oedd yn ennill dros £100,000 y flwyddyn sydd wedyn yn ceisio cael eu hailgyflogi o fewn 12 mis. Bydd yr adfer yn seiliedig ar ad-dalu'r cyfanswm os bydd yr ailgyflogi yn digwydd o fewn 28 o ddiwrnodau. Bydd y swm yn gostwng ar raddfa pro-rata hyd at 12 mis. Wedi hynny, ni fyddai unrhyw ad-daliad yn ddyledus. Rwy'n deall y byddai angen ystyried materion eraill, er enghraifft adfer rhannol os ailgyflogir ar gyflog is, dychwelyd yn rhan amser, unrhyw daliadau treth a hawliadau statudol.

***Question 4 - In relation to the power to waive the repayment requirement, if this is conferred on the Welsh Ministers, in what circumstances does the Welsh Government envisage using that power?***

Rwy'n cael ar ddeall mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y byddai'r gofyniad yn cael ei hepgor, a hynny fesul achos, gan ddilyn yr egwyddor gyffredinol bod cyfiawnhad i hyn ar sail darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Gallai hynny gynnwys achosion lle ailgyflogir am resymau busnes sy'n bodloni gofynion busnes trylwyr. Nid wyf yn rhagweld hepgor y gofyniad lle mai dymuniad yr unigolion yn unig yw cael eu hailgyflogi yn yr un sector neu sector tebyg.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business